Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

**Health and Care Research Wales**
Conference 2023 | 12 October 2023
**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**
Cynhadledd 2023 | 12 Hydref 2023

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# People make research
# Pobl yn gwneud ymchwil

**Swansea Arena, Swansea | #ResearchWales23**
**Arena Abertawe, Abertawe | #YmchwilCymru23**

## Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2023

## Galwad am grynodebau ar gyfer cyflwyniadau arddull TED a phosteri

Ar hyn o bryd, rydym yn gwahodd cyflwyniadau i gyflwyno sesiwn arddull TED neu arddangos poster yng Nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar **12 Hydref** yn Arena Abertawe, Abertawe.

## Thema'r gynhadledd: Pobl yn gwneud ymchwil

Mae gennym ddiddordeb mewn pobl mewn ymchwil a beth mae hyn yn ei olygu i chi, boed yn bartneriaethau ag aelodau o'r cyhoedd a'u rhan mewn ymchwil, ymchwilwyr, diwydiant neu eraill a/neu gymryd rhan neu helpu gydag ymchwil yng Nghymru, y DU neu'n fyd-eang.

**Dylai pob cyflwyniad ymdrin â thema'r gynhadledd 'Pobl yn gwneud ymchwil' ac rydym yn croesawu'n arbennig y rheini sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd neu ymwneud ag ymchwil yn ogystal â phrosiectau a mentrau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

## Canllawiau cyflwyno crynodebau

Ni ddylai testun y crynodeb ar gyfer poster neu gyflwyniad fod yn fwy na 250 gair. Nid yw enwau a chysylltiadau awduron yn rhan o destun y crynodebau ac nid ydynt yn cael eu cyfrif yn y terfyn geiriau.

Ar gyfer y digwyddiad hwn, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn crynodebau ar gyfer cyflwyniadau yn y pynciau hyn:

- Prosiectau a mentrau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Llwybrau i ymchwil a datblygu gyrfa (e.e.: hyfforddiant; hanesion gyrfa ymchwil anhraddodiadol, meithrin capasiti, diwylliant ymchwil)
- Effaith cynnwys y cyhoedd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Mae pob crynodeb i'w gyflwyno trwy ein ffurflen ar-lein.

## Cyflwyniadau llafar arddull TED

Rydym yn cynnig y cyfle i fynegi diddordeb mewn cyflwyno yn ystod y sesiwn arddangos yn y gynhadledd. Ni ddylai cyflwyniadau fod yn fwy na 10 munud, gan gynnwys unrhyw amser yr hoffech ei gadw ar gyfer cwestiynau.

Os na chewch eich derbyn i gyflwyno, efallai y cewch gynnig y cyfle i arddangos poster.

## Posteri

Croesewir cyflwyniadau gan unrhyw un, a bydd posteri sy'n cael eu derbyn i'w harddangos yn cael eu dangos yng Nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn yr ardal bosteri. Bydd posteri'n cael eu beirniadu ar gyfer gwobr y 'Poster Gorau' a gyflwynir ar ddiwedd y gynhadledd.

## Amserlen ar gyfer ceisiadau

| | |
|---|---|
| **14 Awst** | **Galwad am grynodebau ar agor** |
| **25 Medi** | **Cyfnod anfon y crynodebau yn cau** |
| **29 Medi** | **Hysbysu ymgeiswyr am gyflwyniad o gael eu derbyn/gwrthod** |
| **6 Hydref** | **Dyddiad cau ar gyfer anfon cyflwyniadau** |
| **12 Hydref** | **Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2023** |

## Canllawiau cyflwyno arddull TED

Ni ddylai eich cyflwyniad fod yn fwy na 10 munud o hyd, gan gynnwys unrhyw amser yr hoffech ei neilltuo ar gyfer cwestiynau.

Bydd sgrin gydag opsiynau sain ar gael ar y diwrnod.

Dylid anfon cyflwyniadau i healthandcareresearch@wales.nhs.uk erbyn y dyddiad a gadarnhawyd yn yr hysbysiad derbyn.

Dylid creu cyflwyniadau mewn fformat cymhareb 16:9.

Rhaid i bob cyflwynydd gofrestru i fynychu'r gynhadledd.

Bydd mwy o fanylion am fformatio cyflwyniadau yn cael eu hanfon pan yr anfonir hysbysiad o benderfyniad y panel.

Bydd yr holl gyflwyniadau ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar ôl y digwyddiad. Os nad ydych am i'ch cyflwyniad gael ei rannu ar y wefan neu os yw'n cynnwys gwybodaeth freintiedig ac yr hoffech ddarparu fersiwn ddiwygiedig ar gyfer y wefan, e-bostiwch healthandcareresearch@wales.nhs.uk.

Cyflwyniad: Mae sgyrsiau arddull TED wedi dod yn gyfystyr â chyflwyniadau dylanwadol a deniadol sy'n swyno cynulleidfaoedd. Os ydych chi'n dyheu am roi cyflwyniad arddull TED, dilynwch y canllaw hwn i greu sgwrs gymhellol a chofiadwy sy'n gadael argraff barhaol ar eich cynulleidfa.

1. Eich angerdd am ymchwil: Rydych yn angerddol am ymchwil ac mae gan hynny'r potensial i ysbrydoli, hysbysu neu herio'r gynulleidfa. Dylai eich cyflwyniad fod â ffocws, yn benodol, ac yn berthnasol i ddiddordebau eich cynulleidfa.
2. Creu agoriad cyfareddol: Dechreuwch eich cyflwyniad gyda bachyn cyfareddol i ddal sylw eich cynulleidfa o'r cychwyn cyntaf. Holwch nhw gyda chwestiwn sy'n procio'r meddwl, dywedwch stori bwerus, neu cyflwynwch ystadegyn sy'n peri syndod. Gallwch ddod â rhywun ar y llwyfan i'ch helpu i swyno a dal sylw'r gynulleidfa.
3. Adrodd stori gymhellol: Mae pobl yn cysylltu â straeon. Rhowch naratif cymhellol trwy gydol eich cyflwyniad, os yn bosibl, i greu cysylltiad emosiynol â'ch cynulleidfa. Rhannwch brofiadau personol, anecdotau, neu astudiaethau achos sy'n amlygu pwyntiau allweddol eich ymchwil.

Gallwch ddilyn y ddolen hon i ddarganfod mwy am sut i wneud y sleidiau cyflwyniad arddull TED gorau.

# Canllawiau posteri

Rhaid i bob poster fod ar ffurf portread, maint A1. **Ni** chaniateir gosodiad dull 'tirwedd'.

Rhaid i gyflwynwyr posteri gofrestru i fynychu'r gynhadledd.

# Proses ddethol crynodebau

Bydd yr holl grynodebau'n cael eu hadolygu gan banel a fydd yn barnu pob cofnod ar ei berthnasedd i'r thema 'Pobl yn gwneud ymchwil' ac rydym yn croesawu'n arbennig y rheini sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd neu ymwneud ag ymchwil yn ogystal â phrosiectau a mentrau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Hysbysir yr ymgeiswyr llwyddiannus ar **29 Medi 2023.**